52-4

# GALAR-GAN

AM

# 14 O LONGAU

## A gollwyd yn ymyl Llanelli,

NOS FERCHER, YR 22 o IONAWR, 1868,

YNGHYD A

# 52 O'R MORWYR.

### ENWAU Y LLONGAU.

Eliza o Jersey—boddodd yr holl wyr, a'r pilot ...... 6
Jeune Caline o Jersey—oll wedi boddi .............. 5
St. Catherine o Fay—oll wedi boddi ................ 6
Sophia o Regneville—oll wedi boddi nifer yn anhysbys
Charles Walker o Lanelli—oll wedi boddi ............ 6
Onward o Lanelli—oll wedi boddi nifer yn anhysbys
Fanny Mary o Amlwch—oll wedi boddi .............. 5
Huntress—oll wedi boddi ............................ 6
Roscino—oll wedi boddi nifer yn anhysbys .........
Brothers o Lanelli—y llong yn y golwg, and achubwyd y gwyr ..................................
Water Lili—y llong yn y golwg, ond y gwyr wedi colli 4
Fanny—y llong yn y golwg, ond y gwyr wedi colli .
Anne of Barnstable—oll wedi boddi.................. 5
Amathyst o Dublin—ar dir, ond tybir fod y gwyr wedi boddi ........................................

# GALARGAN.

Trist newyddion ddaeth i'n clustiau,
  Eto ddechreu'r flwyddyn hon,
Sôn am rhyw ddamweiniau 'sgeler
  A barodd friw i lawer bron;
Trwy Lanelli a'r hamgylchoedd,
  Gwelir lluoedd ar bob llaw,
Ddydd a nos yn tywallt dagrau,
  A'i calonau'n brudd mewn braw.

Pedair-llong-ar-bymtheg ddarfu
  O Lanelli hwylio i ma's,
Ionawr, sef yr ail-ar-hugain,
  I fyned ar y cefnfor glas;
Yr oedd y morwyr yn dra gwrol,
  Fel arferol gyda'u gwaith,
Yn anturio eu bywydau
  Ar y môr a'i donau maith.

Cyn pen dwy awr 'rol troi allan,
  Trist yw dadgan hyn yn awr,
Aeth pedair-llong-ar-ddeg yn ddrylliau
  Yn y môr a'i donau mawr;
Yr oedd y gwynt yn rwygo'r hwyliau,
  Nes tori yr hwylbrenau ffwrdd,
Y môr a'i donau mawr echryslon
  Yn golchi y dynion dros y bwrdd.

Yr oedd yr olygfa'n un arswydus,
  Torcalonus im i ddweyd,
Elfenau natur oedd mor gryfion,
  Ni wyddai'r dynion beth i'w wneud,

X205 231550

Yr o'ent yn ngolwg tir Llanelli,
  Mewn ymdrech am y bywyd brau,
Trist yw'r newydd a gaf adrodd—
  Boddodd haner cant a dau.

Perthynai llawer i Lanelli,
  Rhy faith i'w henwi hyn o bryd,
Capten Clement a'i fab siriol
  Aethant i'r anfarwol fyd;
Daniel Rees a Christopher Lewis,
  Dau *bilot* medrus oeddent hwy,
Heblaw ereill o Lanelli
  Na cheir yn fyw eu cwmni mwy.

Trwy Gastell Nedd ac Abertawe,
  Clywir cwynion ar bob cam,
Y wraig ar ol ei hanwyl briod,
  Ac am ei mhab y cwyna'r fam;
Nid oes dim ond swn galaru
  Ar lanau moroedd Cymru 'nawr,
Gwragedd gweddwon, plant amddifaid,
  Sydd yn teimlo colled fawr.

Yn Ffrainc y gwelir gruddiau gwlybion,
  Ac ar dir y Werddon draw,
Am berth'nasau a chyfeillion
  Llawer calon sydd mewn braw ;
Y difrod mawr wnawd ar fywydau,
  Yn y tonau fel daeth sôn,
Barodd ofid mawr a thristwch
  I drigolion Amlwch, Môn.

Mae ryw ruddfan trwy yr holl wlad,
  O Lynlleifiad i Gaerdydd,
Am yr erchyll longddrylliadau,
  Llawer bron sydd heddyw'n brudd;

Gwelir dagrau yn Llanelli,
Abertawe, Castellnedd,
Ac yn Amlwch teimlir gofid
Am forwyr aeth i'r dyfrllyd fedd.

Bydded i'r rhai sydd yn alarus
Orphwys ar ewyllys Ior,
Gan mai Ef sy'n llywodraethu
Ar y tir ac ar y môr;
Duw ofala am y gweddwon,
A'r amddifaid yn mhob man,
Mae yn barod ar bob amser
I wrando cwyn a gweddi'r gwan.

Gymry anwyl, ceisiwn beunydd
Am wir grefydd yn ei grym,
Hon a'n ceidw yn y diwedd
Yn ngwyneb llid dialedd l lym;
Ac ymdrechwn fod yn barod
I gyfarfod Crist ein Pen,
A chael canu yn ei gwmni
Yn ngwlad goleuni mwy, Amen.

DEWI MEDI.

David Davies, Llanelli

